**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Ebrill 2015

Annwyl David,

**Ymchwiliad: Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mawrth. Yn anffodus, nid wyf mewn sefyllfa i roi rhagor o fanylion am unrhyw newidiadau i'r rheolau sefydlog ar hyn o bryd.

Yn dilyn pasio Deddf Cymru bydd angen i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru ystyried y gweithdrefnau sydd eu hangen i graffu ar y pwerau newydd i fenthyca arian ac i godi trethi, a fydd yn cynnwys Biliau cyllid a'r posibilrwydd o gyflwyno Bil cyllideb blynyddol.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi dau adroddiad ar 'Arferion Gorau o ran y Gyllideb'. Yn yr adroddiadau hyn, mae'r Pwyllgor wedi ymatal rhag rhagnodi unrhyw broses benodol y credwn y dylid eu mabwysiadu. Rydym wedi cynnig rhai awgrymiadau ond, fel Pwyllgor, teimlwn mai'r Llywodraeth a'r Cynulliad ddylai benderfynu ar fanylion y newidiadau, gan sicrhau bod cytundeb trawsbleidiol a bod anghenion y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa'n cael eu diwallu.

Wedi dweud hynny, mae'n amlwg y bydd angen newid y rheolau sefydlog, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r gyllideb. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor wedi awgrymu y dylid cael Bil cyllideb blynyddol, ac mae'n debygol y byddai angen paratoi set benodol o reolau sefydlog ar gyfer Bil o'r natur hwn.  Efallai y byddai'n

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

ddefnyddiol ichi ddarllen y braslun a awgrymodd y Pwyllgor ar gyfer proses gyllidebu (atodiad A - mae copi ynghlwm er gwybodaeth) ac a gyhoeddwyd fel rhan o’n hadroddiad. Fe sylwch fod hyn yn awgrymu y gallai’r rheolau sefydlog ddarparu ar gyfer proses garlam yng nghyfnod 1.

O ran Biliau trethiant, ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y bydd unrhyw newidiadau ac y defnyddir y weithdrefn 4 cam arferol ar gyfer pasio’r Biliau trethiant hyn. Os bydd y Llywodraeth yn awgrymu newid y rheolau sefydlog ar gyfer Biliau cyllid, mae hynny’n rhywbeth y byddai angen ei ystyried yn ôl rhinweddau’r awgrymiadau hynny ar y pryd.

Rwy’n siŵr eich bod yn sylweddoli mai dyddiau cynnar yw hi o ran datganoli pwerau cyllidol newydd ac, oherwydd hynny, mae’n anodd manylu ar unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud i’r rheolau sefydlog.

Gobeithio y bydd y wybodaeth a roddais o gymorth i’ch ymchwiliad.

Yn gywir,

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

26 Mawrth 2015

Annwyl Jocelyn

**Ymchwiliad: Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad**

Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth mewn cysylltiad â'r ymchwiliad uchod ar 16 Mawrth 2015.

Roedd un o'r materion a godwyd gennym yn ymwneud â'r sylwadau canlynol, a wnaed yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

> "24. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Llywodraeth yn rhagweld y gall fod yn briodol ymdrin hefyd â rhai materion ariannol neu refeniw treth drwy broses graffu amgen..."

Pan ofynnwyd i'r Gweinidog am y gwahanol brosesau craffu a allai fod yn briodol ar gyfer biliau cyllid neu filiau ar drethi, cyfeiriodd at waith a wnaed gan eich pwyllgor sy'n ymwneud ag arferion gorau o ran y gyllideb.

Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, a sut y mae'n berthnasol i newidiadau i reolau sefydlog a allai fod yn angenrheidiol i ddarparu ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol ar filiau cyllid, cyllidebol neu

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6362
E-bost / Email: gareth.williams@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

filiau ar drethi. Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael manylion am yr amserlen bosibl rydych yn ei rhagweld o ran gweithredu’r newidiadau hyn.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 23 Ebrill 2015.

Yn gywir



**David Melding AC**
**Cadeirydd**